PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Cyfarfod: 2 Chwefror 2005

Lle: Ystafell y Cyngor

Presennol: Dr Einir Young (Cadeirydd), Llion Dafydd, Eryl W. Davies, Margaret Deuchar, Gwenno Ffrancon, Geraint George, W.P. Griffith, Eifion Lloyd Jones, Bethan Wyn Jones, Delyth Morris, Delyth Murphy, Mairwen Owen, Arne Pommerening, Delyth Prys, Osian Rees, Gwerfyl Roberts, Deri Tomos,Thomas Watkin, Cen Williams, Ellen P. Williams, Meg Elis (Cofnodion).

Ymddiheuriadau: Aled Griffiths, Dewi Jones, Llion Jones, Stephen Rees, Carys Roberts, Gareth Roberts, Gwenda Rhian, Enlli Thomas, Gerwyn Williams, Gwenan Williams.

1. **LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwyd y canlynol:
Dr Ioan ap Dewi ar ei benodi'n Gofrestrydd Academaidd
Dr Arne Pommerening ar ei benodi'n Gyd-gysylltydd Iaith yr Ysgol Gwyddorau Amaeth a Choedwigaeth
Y Parch. Athro Densil Morgan ar ei benodi'n Bennaeth Ysgol y Dyniaethau.
Hefyd croesawyd yr Athro Thomas Watkin ac Osian Rees , aelodau newydd o Adran y Gyfraith.

2. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd 21 Hydref 2004 fel cofnod cywir ar wahân i un cywiriad, sef mai Dewi Llŷr Jones yw enw'r Cymrawd yn Adran y Gyfraith a'r Athro Watkin (nid Watkins).

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

a) Presenoldeb y Brifysgol yn yr Eisteddfod.
Cafwyd cynnydd ers y cyfarfod diwethaf, a bydd y Brifysgol yn noddi'r Babell Wyddoniaeth. Nododd TW mai'r gobaith yw lansio gradd newydd y Gyfraith a'r Gymraeg yn ystod yr Eisteddfod. Crybwyllodd GFf y bydd yr Adran Gyfathrebu yn perfformio drama. Croesawyd y datblygiadau hyn, a phwysleisiwyd y dylid

rhannu gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau hyn ymysg aelodau'r Ysgol ac yn ehangach. Nodwyd bod Elinor Elis Williams yn gwahodd pobl i fynegi diddordeb yn y perfformiadau celfyddydol a fydd yn cael eu trefnu. (Dylid cysylltu â hi am fwy o wybodaeth).

b) Seminar gydag UCAC. Y mae Dilwyn Roberts-Young yn trefnu cyfarfod rhwng cynrychiolaeth o athrawon Uwchradd Gwynedd â Chyfarwyddwr ac Is-Gyfarwyddwr yr ysgol.

c) Strategaeth drafft y Cyngor Cyllido. Mae'r Grŵp Llywio wedi edrych ar yr holl ymatebion a gafwyd i'r strategaeth, a dywedwyd y byddai'r manylion oll ar gael: hyd yma, nid yw hyn wedi digwydd.

4. LLE'R YSGOL YN STRWYTHUR NEWYDD Y BRIFYSGOL.

Dosbarthwyd papur a dderbyniwyd gan y Cofrestrydd yn gosod allan sefyllfa'r Ysgol a chylch gorchwyl y grwpiau tasg newydd. Nododd y Cyfarwyddwr mai'r prif achos pryder oedd na fyddai gan yr Ysgol bellach (trwy'r Cyfarwyddwr a'i Dirprwy) bresenoldeb fel cynt ar bwyllgorau'r Brifysgol sydd yn ymwneud â materion y tu allan i'r cylch gorchwyl "cyfrwng-Cymraeg". Pwysleisiodd yr aelodau fod y presenoldeb llorweddol hwn yn bwysig, a'i fod, yn sgil y newidiadau, wedi lleihau. Nodwyd hefyd mai tri yn unig o aelodau'r Bwrdd Penaethiaid Academaidd oedd yn siarad Cymraeg, a bod enghreifftiau o bwyllgorau allweddol lle nad oes cynrychiolaeth Gymraeg o gwbl. Pwysleisiodd CW fod hyn yn mynd yn groes i nod datganedig y Cynllun Iaith o normaleiddio'r Gymraeg trwy'r sefydliad.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at y Cofrestrydd yn rhestru'r pwyntiau hyn.

5. CYFLWYNIAD "Y BYD"

Ni allai Ned Thomas fod yn bresennol oherwydd gwaeledd, a PHENDERFYNWYD anfon dymuniadau gorau'r ysgol ato am adferiad buan.

6. MATERION Y GYFARWYDDWRAIG

i) Cyhoeddwyd fod 'Geiriadur Termau Seicoleg' wedi ei gyhoeddi, gyda chydnabyddiaeth o nawdd PAG. Nodwyd y bydd yr Ysgol Seicoleg yn defnyddio'r gyfrol fel erfyn recriwtio, gan anfon copïau at fyfyrwyr Seicoleg lefel A, a thynnu sylw ato yn eu Diwrnod Agored. Mae'n fwriad ganddynt i lawnsio'r gyfrol ddydd Gwyl Ddewi a bydd mwy o fanylion ar gael yn y man.

ii) Mae'r alwad allan am fidiau am gyllid TASCC.

iii) Mae'r alwad allan hefyd am fidiau am ysgoloriaethau'r Cyngor Cyllido, ac y mae gan hawl gan PCB i wneud bid am bump ohonynt. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr bwysigrwydd yr ysgoloriaethau hyn i godi proffil y cyfrwng Cymraeg mewn ymchwil yn ogystal â dysgu. Adroddodd ei bod yr Athro Roberts, Dr Deri Tomos, Dr Will Gruffydd a hithau yn rhan o is-bwyllgor

TASCC a fydd yn ystyried y bidiau a'u bod eisoes wedi cael cyfarfod gyda'r Athro John Farrar i drafod lle'r Gymraeg yn strategaeth ymchwil PCB.

iv) Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori Mewnol. Mae i'r strategaeth hon dair lefel, sef y Fforwm Staff, Fforwm Myfyrwyr a'r undebau. Nid yw UCAC, sef yr unig Undeb sy'n rhoi blaenoriaeth i faterion yn ymwneud â'r Cyfrwng Cymraeg yn undeb cydnabyddedig, ac nid yw felly'n cael ei chynnwys yn y trafodaethau. Ymddengys nad oes digon o sylw wedi'i roi i gynrychiolaeth y cyfrwng Cymraeg yn y fforymau, ond bod y sefyllfa'n iachach gyda fforwm y myfyrwyr, gyda chynrychiolaeth sefydlog UMCB.

v) Pŵer Dyfarnu Graddau. Un o'r cryfderau a bwysleisir yn nogfen PCB ar y mater hwn yw'r elfen cyfrwng Cymraeg. Bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad datganiad ar bapur yn unig mo hyn.

vi) Strwythur y Llyfrgell. Rhoes BWJ grynodeb o'r cynigion, sef bod mwyafrif staff proffesiynol y llyfrgell yn wynebu diswyddo. Bydd swyddi'r 6 Llyfrgellydd Pwnc yn diflannu, a bwriedir cyfuno swydd y Llyfrgellydd Cymraeg a'r Archifydd. Gan mai wrthi'n cael ei ffurfio y mae Llyfrgell y Gyfraith, bydd y swydd honno yn aros. Os gweithredir y newidiadau, ni fydd gwasanaeth cynghori wyneb-yn-wyneb o gwbl trwy'r holl lyfrgelloedd, a bydd y gwaith o ddarparu cefnogaeth i ddod o hyd i wybodaeth yn disgyn ar staff yr adrannau.

Mynegodd nifer o'r aelodau bryder dybryd am y newidiadau hyn, gyda CW yn amau mai blaen y gyllell yw'r toriadau hyn, ac yn nodi fod angen pwysleisio cyfraniad amhrisiadwy Bangor i faes llyfrgellyddiaeth, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y maes cyfoes hefyd, dylid crybwyll y cyfrwng Cymraeg i e-ddysgu, e.e., Blackboard.

Pwysleisiodd EPW yr angen am gynnwys sylwadau adeiladol mewn unrhyw ymateb, a nodi ein bod fel Ysgol yn awyddus i weld y ffordd orau ymlaen i ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Ofnai GFf y byddai enw Bangor am ymchwil yn dioddef, ac y byddai'n anos denu ymchwilwyr o'r radd flaenaf, ac felly bod y strategaeth yn wrthgynhyrchiol.

PENDERFYNWYD y bydd BWJ ac EPW yn trafod ymhellach, yn adrodd i'r Cyfarwyddwr, a'r sylwadau wedyn yn cael eu cyflwyno ar ran yr Ysgol i'r Cofrestrydd yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror ac yn ehangach drwyddo ef.

vii) Difodiant Mathemateg. Cafodd yr Adran gyfarwyddyd i beidio recriwtio myfyrwyr o 2005 ymlaen. Tynnodd y Cyfarwyddwr gymhariaeth yma â'r pynciau a ddysgir drwy'r Gymraeg gan bod y niferoedd a ddysgir yn gymharol fach, a bod dadl gyfochrog dros bynciau sydd yn hanfodol ond o raid yn denu niferoedd bychain o fyfyrwyr. Rhaid meddwl am fodel ariannu teg i bynciau o'r fath.

7. **CYFLWYNIAD GAN GERAINT GEORGE ar ei brofiadau o ddenu abwyd ariannol i fyfyrwyr gan ddarpar gyflogwyr.**

Cyflwynodd Geraint George newyddion calonogol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Busnes, a Datblygiad Rhanbarthol, a dweud fod twf wedi digwydd mewn swyddi amgylcheddol/cefn gwlad. Bu hwn yn faes lle'r arferid cael prinder o siaradwyr Cymraeg, felly trwy bartneriaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, cychwynnwyd llynedd ar gynllun peilot. Yn 2003-04, derbyniodd myfyrwyr ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg nawdd gan y Cyngor ar gyfer dilyn y cwrs Diploma/MA mewn Rheolaeth Cefn Gwlad. Golygodd hyn fod 5 myfyriwr wedi derbyn £1,000 yr un. Ynghlwm â'r pecyn, yr oedd lleoliad profiad gwaith, a chwe mis o waith cyflogedig. Amcan y prosiect oedd cadw pobl ifainc cymwys, ac yn hyn o beth, bu'n llwyddiannus, gan iddynt oll dderbyn swyddi yng Nghymru.

Nodwyd fod hyn wedi digwydd yn dilyn blynyddoedd o gydweithredu gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, a bod datblygiadau pellach yn awr ar y gweill, gan y bydd 7 myfyriwr yn derbyn yr un gefnogaeth yn 2004-05. Bwriedir ehangu'r prosiect yn Mangor gan nodi bodAberystwyth eisoes yn denu cyllid tebyg gan CCC ond yn dewis ei ddefnyddio fel abwyd i is-raddedigion yn hytrach na myfyrwyr Meistr. Awgrymwyd y dylid cynnal seminar yn sgil hyn fel bod modd rhannu'r wybodaeth a'i wneud yn gynaliadwy. Partneriaid eraill y ceisir eu cymorth yw Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, y Parciau Cenedlaethol, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw cael pecyn tymor-hir fydd yn bodoli am 5/6 mlynedd.

Pwysleisiodd GG mai un maes yn unig yw hwn, ond y gallai fod yn fodel i adrannau eraill, yn enwedig gyda'r profiad cadarnhaol o ddefnyddio'r rhwydweithiau Cymreig.

Nododd CW fod mwy o le i'r math hwn o weithgaredd, a holodd am bosibilrwydd nawdd i fodiwlau cyfrwng-Cymraeg. Atebodd GG fod Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a chyllid Amcan 1 yn gyffredinol, yn ffynhonnell bosibl.

PENDERFYNWYD anfon argymhelliad at TASCC i ymchwilio mwy i'r dull hwn o gyllido'r cyfrwng Cymraeg.

8. **ADRODDIAD CYFARWYDDWR CANOLFAN BEDWYR**

Dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr, Dr Cen Williams, a thynnodd sylw at rai materion, sef bod arolwg mewnol o Ganolfan Bedwyr ar fin digwydd, a bod gwaith yn parhau ar adolygu'r Cynllun Iaith.

9. ADRODDIAD TASCC

Yn absenoldeb Y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad, a thynnu sylw eto at fidiau am gyllid TASCC. Y dyddiad cau ar gyfer y bidiau yw 4 Mawrth 2005.

Cafwyd cyfarfod o'r Grŵp llywio ar gyfer darpariaeth Cyfwng Cymraeg mewn Addysg Uwch, a deallwyd bod y strategaeth drafft wedi derbyn anogaeth gan y Gweinidog Addysg.

10. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Dydd Mercher, Ebrill 20 am 2.15 yn Ystafell y Cyngor.